# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014** |
| Amser: | **08.45 - 12.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_26_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Graham AC (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw AC**<br>**Keith Davies AC**<br>**Dafydd Elis-Thomas AC**<br>**Rhun ap Iorwerth AC**<br>**Julie James AC**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Tystion: | **Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport**<br>**Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru**<br>**Callum Couper, Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain, De Cymru**<br>**Ian Davies, Stena Line Limited**<br>**Alec Don, Milford Haven Port Authority**<br>**Martin Evans, CILT Cymru**<br>**Ceri Jones, Prifysgol Abertawe**<br>**Dr Andrew Potter, Prifysgol Caerdydd**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| | **Wyn Pritchard, Cyfarwyddwr, Construction Skills Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Claire Morris (Ail Clerc)**<br>**Olga Lewis (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC a Byron Davies AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 8) (09.00-09.30)

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ian Davies, Rheolwr Llwybrau - rhanbarth De Môr Iwerddon, Stena Line Limited; Alec Don, Prif Weithredwr a Mark Andrews, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, a oedd ill dau yn cynrychioli porthladd Aberdaugleddau, a Callum Couper, Rheolwr Porthladd, Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain, De Cymru.

## 3 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 9) (09.30-10.00)

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Potter, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Martin Evans, cyn-gadeirydd ac aelod o Fwrdd Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth Cymru.

## 4 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 6) (10.10-10.50)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ceri Jones, Adran Ymchwil ac Arloesedd, Prifysgol Abertawe, a Wyn Prichard, Cyfarwyddwr Cymru, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu.

## 5 Cynllunio ac Ariannu Trafnidiaeth (11.00-12.00)

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd y Gweinidog gan James Price,

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth.

5.2 Cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i:

- Rannu argymhellion y Grŵp Cynghori ar Fysiau;
- Ystyried a ddylid cynnwys y Gymdeithas Cludiant Cymunedol yn y Grŵp Cynghori ar Fysiau;
- Darparu nodyn ar broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru o ran y penderfyniad ynghylch tocynnau rhatach, a sut y darparwyd cyngor i'r Gweinidog;
- Darparu nodyn ar sut y caiff amcanestyniadau demograffig Cymru eu hystyried wrth bennu lefelau ariannu teithio rhatach dros y tair blynedd nesaf, o gofio'r gostyngiadau yn y cyllid sydd ar gael ym mhob blwyddyn o'r cytundeb;
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i ddatblygu tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc;
- Darparu nodyn ar y dull o ariannu'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd yn ne Cymru, a nodwyd yn achos busnes amlinellol terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer trydaneiddio yn y Cymoedd, gan gynnwys adran 6 o Achos Busnes Amlinellol dyddiedig Mai 2012, ac os yn bosibl, gan gynnwys y ffigurau a adolygwyd o'r achos busnes;
- Darparu nodyn ar y trafodaethau a gafwyd ynghylch trydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru, a materion trafnidiaeth ehangach sy'n gysylltiedig â hynny;
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith deuoli i gysylltu prif linell rheilffordd Gogledd Cymru â Lerpwl a Manceinion.

## 6 Papurau i'w nodi

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Ymchwiliad i Dwristiaeth (trafod y papur cwmpasu)

7.1 Penderfynodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.42 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Ymchwiliad i Dwristiaeth (trafod y papur cwmpasu).

## 8 Ymchwiliad i Dwristiaeth (trafod y papur cwmpasu) (12.00-12.15)

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

8.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad i Dwristiaeth.